

HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU

NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 9 Chwefror 2024
Tabled on 9 February 2024

Bil Seilwaith (Cymru) Infrastructure (Wales) Bill

- Delyth Jewell** 139
Page 4, line 2, leave out section 5.
Tudalen 4, llinell 2, hepgorer adran 5.
- Delyth Jewell** 140
Page 4, line 10, leave out section 6.
Tudalen 4, llinell 9, hepgorer adran 6.
- Delyth Jewell** 141
Section 30, page 21, line 12, after ‘consulted’, insert ‘which must include those who are likely to be affected by the application’.
Adran 30, tudalen 21, llinell 14, ar ôl ‘hwy’, mewnosoder ‘ac y mae rhaid iddynt gynnwys y rhai y mae’r cais yn debygol o effeithio arnynt’.
- Delyth Jewell** 142
Section 30, page 21, line 19, after ‘consultation’, insert ‘, which must provide a minimum of 28 days for those consulted to respond to it’.
Adran 30, tudalen 21, llinell 22, ar ôl ‘ymgyngoriad’, mewnosoder ‘, y mae rhaid iddi ddarparu lleiafswm o 28 o ddiwrnodau i’r rhai yr ymgynghorir â hwy ymateb iddo’.
- Delyth Jewell** 143
Section 35, page 24, after line 18, insert—
‘() Before submitting a local impact report, a planning authority or a community council (as the case may be) must consult locally on the contents of the report.’.

Adran 35, tudalen 24, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

- () Cyn cyflwyno adroddiad ar yr effaith leol, rhaid i awdurdod cynllunio neu gyngor cymuned (yn ôl y digwydd) ymgynghori'n lleol ar gynnwys yr adroddiad.'

Delyth Jewell

144

Section 36, page 24, after line 36, insert –

- () Natural Resources Wales must consult on the content of a proposed marine impact report to be submitted in accordance with subsections (1) to (3) above, before submission of the report'.

Adran 36, tudalen 24, ar ôl llinell 38, mewnosoder –

- () Rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru ymgynghori ar gynnwys adroddiad effaith ar y môr arfaethedig i'w gyflwyno yn unol ag is-adrannau (1) i (3) uchod, cyn cyflwyno'r adroddiad.'

Delyth Jewell

145

Section 39, page 26, after line 11, insert –

- () The document published in accordance with subsection (3) must make provision for the assessment of the expertise or experience of the person or panel of persons under consideration.'

Adran 39, tudalen 26, ar ôl llinell 12, mewnosoder –

- () Rhaid i'r ddogfen a gyhoeddir yn unol ag is-adran (3) wneud darpariaeth ar gyfer asesu arbenigedd neu brofiad y person neu'r panel o bersonau o dan ystyriaeth.'

Delyth Jewell

146

Section 41, page 27, leave out lines 5 to 6.

Adran 41, tudalen 27, hepgorer llinell 5.

Delyth Jewell

147

Section 42, page 28, leave out lines 8 to 17.

Adran 42, tudalen 28, hepgorer llinellau 8 hyd at 18.

Delyth Jewell

148

Page 28, after line 22, insert a new section –

[] Open Floor Hearings

- (1) The examining authority must fix, and inform the interested parties of the deadline by which an interested party must notify the Welsh Ministers of the party's wish to be heard at an open-floor hearing.

- (2) If the Welsh Ministers receive notification from at least one interested party before the deadline in subsection (1), the examining authority must arrange for the holding of an open-floor hearing.
- (3) At an open-floor hearing, each interested party is entitled (subject to the examining authority's powers of control over the conduct of the hearing) to make oral representations about the application.'

Tudalen 28, ar ôl llinell 24, mewnosoder adran newydd –

[] Gwrandawiadau Llawr Agored

- (1) Rhaid i'r awdurdod archwilio bennu'r dyddiad cau erbyn pryd y mae rhaid i barti a chanddo fuddiant hysbysu Gweinidogion Cymru ei fod yn dymuno cael ei glywed mewn gwrandawriad llawr agored, a rhaid i'r awdurdod archwilio hysbysu'r partiön a chanddynt fuddiant am y dyddiad cau hwnnw.
- (2) Os yw Gweinidogion Cymru yn cael hysbysiad gan o leiaf un parti a chanddo fuddiant cyn y dyddiad cau yn is-adran (1), rhaid i'r awdurdod archwilio drefnu i wrandawriad llawr agored gael ei gynnal.
- (3) Mewn gwrandawriad llawr agored, mae hawlogaeth gan bob parti a chanddo fuddiant (yn ddarostyngedig i bwerau'r awdurdod archwilio i reoli'r dull o gynnal y gwrandawriad) i gyflwyno sylwadau llafar am y cais.'

Delyth Jewell

149

Section 45, page 29, line 19, after 'public', insert 'at a location which is as close as reasonably practicable to the proposed development site'.

Adran 45, tudalen 29, llinell 21, ar ôl 'gyhoeddus', mewnosoder 'mewn lleoliad sydd mor agos ag y bo'n rhesymol ymarferol i safle'r datblygiad arfaethedig'.

Delyth Jewell

150

Section 45, page 29, after line 19, insert –

- '() the local inquiry must be accessible electronically, with a live stream of the inquiry accessible to enable those unable to attend in person to access the proceedings.'

Adran 45, tudalen 29, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- '() rhaid i'r ymchwiliad lleol fod ar gael yn electronig, a rhaid i ffrwd fyw o'r ymchwiliad fod ar gael er mwyn galluogi'r rhai na allant fod yn bresennol yn y cnawd i gael gfael ar y trafodion.'

Delyth Jewell

151

Section 45, page 29, line 20, after 'inspection', insert 'in person and via electronic means'.

Adran 45, tudalen 29, llinell 22, ar ôl 'arni', mewnosoder 'yn y cnawd a thrwy ddull electronig'.

Delyth Jewell

152

Section 54, page 33, after line 24, insert –

‘() the desirability of mitigating, and adapting to, climate change;’.

Adran 54, tudalen 33, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

‘() dymunoldeb lliniaru newid hinsawdd ac ymaddasu iddo;’.

Delyth Jewell

153

Page 72, after line 29, insert a new section –

‘Biodiversity net gain

[] Biodiversity net gain

- (1) This section applies to all significant infrastructure projects as defined in section 1 of this Act.
- (2) Regulations may make provision to support biodiversity net gain from significant infrastructure projects in Wales.
- (3) Any application for infrastructure consent must comply with requirements in regulations made under subsection (2).
- (4) Before making regulations under subsection (2), the Welsh Ministers must consult such persons as the Welsh Ministers consider appropriate.
- (5) In particular the regulations must –
 - (a) provide a biodiversity net gain objective for any description of development to which the regulations apply;
 - (b) provide that, where applications for infrastructure consent are made for any development of that description during a period specified in the statement, the development must meet that objective;
 - (c) specify how development of any description may or must meet the biodiversity net gain objective.’.

Tudalen 72, ar ôl llinell 28, mewnosoder adran newydd –

‘Budd net i fioamrywiaeth

[] Budd net i fioamrywiaeth

- (1) Mae’r adran hon yn gymwys i bob prosiect seilwaith arwyddocaol fel y’i diffinnir yn adran 1 o’r Ddeddf hon.
- (2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth i gynnal budd net i fioamrywiaeth o brosiectau seilwaith arwyddocaol yng Nghymru.
- (3) Rhaid i unrhyw gais am gydsyniad seilwaith gydymffurfio â gofynion mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (2).
- (4) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.
- (5) Yn benodol, rhaid i’r rheoliadau –

- (a) darparu amcan budd net i fioamrywiaeth ar gyfer datblygiad o unrhyw ddisgrifiad y mae'r rheoliadau yn gymwys iddo;
- (b) darparu bod rhaid i'r datblygiad fodloni'r amcan hwnnw, pan fo ceisiadau'n cael eu gwneud am gydsyniad seilwaith ar gyfer unrhyw ddatblygiad o'r disgrifiad hwnnw yn ystod cyfnod a bennir yn y datganiad;
- (c) pennu sut y caiff datblygiad o unrhyw ddisgrifiad fodloni'r amcan budd net i fioamrywiaeth neu sut y mae rhaid i ddatblygiad o unrhyw ddisgrifiad wneud hynny.'

Delyth Jewell

154

Page 74, after line 12, insert a new section –

[] Requirement to consult Community Energy Wales

The Welsh Ministers or an examining authority must consult Community Energy Wales about a valid application for infrastructure consent.'

Tudalen 74, ar ôl llinell 14, mewnosoder adran newydd –

[] Gofyniad i ymgynghori ag Ynni Cymunedol Cymru

Rhaid i Weinidogion Cymru neu awdurdod archwilio ymgynghori ag Ynni Cymunedol Cymru ynghylch cais dilys am gydsyniad seilwaith.'

Delyth Jewell

155

Section 138, page 81, after line 7, insert –

'() section [section to be inserted by amendment 148]';

Adran 138, tudalen 81, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

'() adran [adran i'w mewnosod gan welliant 148]';